**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

**DARPARIAETH GYNRADD SAESNEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r unigolion priodol, yn cynnig:

Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Coed Glas, Tŷ Glas Avenue, Caerdydd CF14 5DW o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad gyda mwy o leoedd meithrin mewn adeilad parhaol.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnig crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn ar gael i'w gweld yn www.caerdydd.gov.uk

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith o fis Medi 2015.

Roedd 473 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2014. Ar hyn o bryd mae 420 o leoedd yn yr ysgol ond bydd hynny'n cynyddu i 540 o leoedd pan gaiff y cynllun ei weithredu.

Caiff 75 o ddisgyblion eu derbyn i Ddosbarth Derbyn yr ysgol (sef y grŵp oedran perthnasol), yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion. Bydd 112 o leoedd meithrin rhan amser ar gael.

Bydd rhaid i rieni'r plant sy'n derbyn lle mewn addysg feithrin wneud cais am le yn yr ysgol o hyd os ydynt am i'w plentyn drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Ni fydd mynychu'r feithrinfa yn sicrhau y caiff y plant hynny eu derbyn i'r Ysgol.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r Ysgol a phennu'r meini prawf derbyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion, sef erbyn 30 Hydref 2014, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

YmatebionYsgolion@caerdydd.gov.uk

Noder bod yn rhaid i unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau sy'n dod i law (nas tynnir yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau , ynghyd â'u sylwadau ar y testun, cyn pen 7 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y gwneir penderfyniad ynghylch y cynnig.

Dyddiedig 03 Hydref 2014

Llofnod: Shaun Jamieson
Cyfreithiwr y Sir
Cyngor Dinas Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw esbonio'i ystyron cyffredinol)

Mae ystafelloedd dosbarth (dros dro) symudol wedi'u darparu yn Ysgol Gynradd Coed Glas er mwyn ateb y galw am leoedd.  Mae'r dosbarthiadau dros dro hyn yn galluogi'r ysgol i dderbyn 90 o ddisgyblion i'w blwyddyn Derbyn.  Gellir gwneud y trefniadau dros dro hyn i gynyddu capasiti dan reoliadau cyfredol am dair blynedd hyd at ddiwedd mis Awst 2015.

Bwriedir rhoi'r cynnig i ehangu nifer y disgyblion y gellir eu derbyn yn yr ysgol bob blwyddyn ysgol i 2.5 dosbarth mynediad ar waith o fis Medi 2015.

Os bydd y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Coed Glas yn mynd rhagddo, bydd angen adolygu dalgylch yr ysgol.

Mae angen i ddalgylchoedd fod o faint ac ardal ddaearyddol a all gynnal ysgolion sydd bron yn llawn.  Dylent hefyd fod yn ddigon cyfleus i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a rhieni yn yr ardal leol o ran y nod o alluogi teuluoedd i gerdded i'r ysgol lle y bo'n bosibl.

Gan fod dosbarthiad y galw a ragdybir am leoedd yn y dosbarth mynediad a'r dosbarth derbyn yn ardaloedd Llanisien, Llysfaen a Thornhill yn wahanol iawn rhwng Medi 2015 a Medi 2016, nid yw eto'n bosibl cynnig dalgylchoedd diwygiedig a fyddai'n cynnig cydbwysedd addas rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael a'r galw amdanynt.

Er y gellid cwblhau'r prosesau statudol sydd eu hangen i ehangu'r ysgol erbyn Medi 2015 ac y byddent felly'n galluogi derbyn disgyblion ychwanegol o'r

dyddiad hwn ymlaen, ni ellid gweithredu unrhyw ddiwygiadau i drefniadau derbyn fel adolygu dalgylchoedd tan fis Medi 2016 o leiaf, yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn dadansoddiad pellach o nifer y lleoedd Derbyn a gaiff eu llenwi yn 2014, disgwylir y bydd ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion cynradd Saesneg yn cael ei gynnal ar ddechrau 2015. Byddai’r trefniadau yn cael eu rhoi ar waith ym mis Medi 2016.

Gall pobl sydd am wneud sylwadau ar y trefniadau ar gyfer y dalgylchoedd neu eu gwrthwynebu wneud hynny yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

**CYNGOR DINAS CAERDYDD**
**DARPARIAETH GYNRADD SAESNEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (sef “yr Awdurdod” o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â’r unigolion priodol, yn cynnig:

Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol y Wern, Llangranog Road, Caerdydd CF14 5BL o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad gyda mwy o leoedd meithrin mewn adeilad parhaol.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu i gyhoeddi’r cynnig hwn.  Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy’n cynnig crynodeb o’r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn ar gael i’w gweld yn www.caerdydd.gov.uk .

Bwriedir rhoi’r cynnig ar waith o fis Medi 2015.

Roedd 432 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2014. Ar hyn o bryd mae lle i 420 o ddisgyblion yn yr ysgol ond bydd hynny’n cynyddu i 540 o leoedd pan gaiff y cynllun ei weithredu.

Caiff 75 o ddisgyblion eu derbyn i Ddosbarth Derbyn yr ysgol (sef y grŵp oedran perthnasol), yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion. Bydd 80 o leoedd meithrin rhan amser ar gael.

Bydd rhaid i rieni’r plant sy’n derbyn lle mewn addysg feithrin wneud cais am le yn yr ysgol o hyd os ydynt am i'w plentyn drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Ni fydd mynychu'r feithrinfa yn sicrhau y caiff y plant hynny eu derbyn i’r Ysgol.

Yr Awdurdod sy’n gyfrifol am dderbyn disgyblion i’r Ysgol a phennu’r meini prawf derbyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i’r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi’r cynigion, sef erbyn 30 Hydref 2014, gall unrhyw berson wrthwynebu’r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, gan ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost canlynol:

YmatebionYsgolion@caerdydd.gov.uk

CARDIFF
CAERDYDD

Noder bod yn rhaid i unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau sy'n dod i law (nas tynnir yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau, ynghyd â'u sylwadau ar y testun, cyn pen 7 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y gwneir penderfyniad ynghylch y cynnig.

Dyddiedig 03 Hydref 2014

Llofnod: Shaun Jamieson
Cyfreithiwr y Sir
Cyngor Dinas Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw esbonio'i ystyron cyffredinol)

Derbyniodd Ysgol y Wern, fel trefniant dros dro, ddisgyblion ychwanegol yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2012, mis Medi 2013 a mis Medi 2014 yn ychwanegol at y Nifer Derbyn Cyhoeddedig i ateb y galw am leoedd yn yr ardal leol.

Gellir gwneud y trefniadau dros dro hyn i gynyddu nifer y lleoedd dan reoliadau cyfredol am dair blynedd hyd at ddiwedd mis Awst 2015.

Bwriedir rhoi'r cynnig i ehangu nifer y disgyblion y gellir eu derbyn yn yr ysgol bob blwyddyn ysgol i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2015.

Nid oes newidiadau wedi'u cynnig i ddalgylch Ysgol y Wern o ganlyniad i'r cynnig hwn.